

# ETHOLIAD COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU AR GYFER ARDAL HEDDLU DYFED POWYS

## HYSBYSIAD YNGHYLCH YR AMSER HWYRAF I YMGEISWYR GYFLWYNO ANERCHIADAU ETHOLIADOL I SWYDDOG CANLYNIADAU ARDAL YR HEDDLU

Yn unol â pharagraff 2, Atodlen 8, Rhan 1 o Orchymyn Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsteddu 2012 (fel y'i diwygiwyd), rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu roi hysbysiad cyhoeddus ynghylch yr amser hwyraf i ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiad hwn gyflwyno eu hanerchiad etholiadol.

Y terfyn amser i ymgeiswyr gyflwyno eu hanerchiad etholiadol fydd **12.00pm, ddydd Gwener, 5 Ebrill 2024**.

- Rhaid i'r anerchiad etholiadol gael ei baratoi gan asiant yr ymgeisydd ar y ffurflen ragnodedig, rhaid iddo gynnwys datganiad sy'n nodi iddo gael ei baratoi gan asiant yr ymgeisydd a rhaid iddo gael ei gyflwyno'n uniongyrchol i'r system ar-lein electronig i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu erbyn yr amser uchod.
- Rhaid rhoi enw a chyfeiriad yr asiant etholiadol hefyd.
- Rhaid cyflwyno'r anerchiad etholiadol yn y Gymraeg neu'r Saesneg a chaiff yr asiant etholiadol gyflwyno cyfieithiad hefyd i'r Saesneg neu'r Gymraeg sy'n gyfieithiad cyflawn a chywir.
- Rhaid i anerchiad etholiadol nodi enw'r ymgeisydd a rhaid iddo gynnwys deunydd sy'n ymwneud â'r etholiad uchod yn unig.
- Rhaid i'r anerchiad etholiadol beidio â chynnwys unrhyw ddeunydd hysbysebu (heblaw deunydd sy'n hyrwyddo'r ymgeisydd fel ymgeisydd yn yr etholiad).
- Rhaid i'r anerchiad etholiadol beidio â chynnwys unrhyw ddeunydd sy'n cyfeirio at unrhyw ymgeisydd arall ar gyfer yr etholiad.
- Rhaid i'r anerchiad etholiadol beidio ag ymddangos i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu i fod yn cynnwys unrhyw ddeunydd sydd â'r bwriad o sicrhau budd masnachol, nac ychwaith fod yn anwedus, yn anllad neu'n dramgwyddus.
- Rhaid i'r anerchiad etholiadol beidio â bod yn gyhoeddiad neu'n ddosbarthiad a fyddai'n debygol o fod yn gyfystyr â chyflawni trosedd.
- Rhaid i unrhyw ffotograff sy'n dangos yr ymgeisydd a gaiff ei gynnwys yn yr anerchiad etholiadol beidio â dangos neb arall a rhaid iddo gydymffurfio â pharagraffau 5 i 8 uchod.
- Caiff yr anerchiad etholiadol gynnwys cynrychioliad o arwyddlun cofrestredig, neu (yn ôl fel y digwydd) un o arwyddluniau cofrestredig plaid wleidyddol gofrestrdedig, os paratwir yr anerchiad ar ran ymgeisydd plaid awdurdodedig.
- Pan baratwir anerchiad etholiadol ar ran ymgeisydd plaid awdurdodedig, caiff yr anerchiad gynnwys disgrifiad o dan adran 28A o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 neu, os yw'r disgrifiad wedi'i gofrestru i'w ddefnyddio gan ymgeiswyr dwy blaid neu fwy, o dan adran 28B y Ddeddf honno.
- Mae'n rhaid bod modd cynhyrchu'r anerchiad etholiadol ar ffurf copi caled a chydymffurfio â gofynion y ffurflen ragnodedig.

# ELECTION OF THE POLICE AND CRIME COMMISSIONER FOR THE DYFED POWYS POLICE AREA

## NOTICE OF THE LATEST TIME FOR THE SUBMISSION OF ELECTION ADDRESSES OF CANDIDATES TO THE POLICE AREA RETURNING OFFICER

In accordance with paragraph 2, Schedule 8, Part 1 of The Police and Crime Commissioner Elections Order 2012 (as amended), the Police Area Returning Officer must give public notice for the latest time that candidates standing in this election may submit their candidate address.

The deadline for candidates to submit their election address will be **12.00pm on Friday, 5<sup>th</sup> April 2024**.

- The election address must be prepared by the candidate's agent on the prescribed form, must contain a statement that has been prepared by the candidate's agent, and submitted directly to the online system to the Police Area Returning Officer by the above time.
- The name and address of the election agent must also be given.
- The election address must be submitted in English or Welsh and the election agent may also submit a translation into Welsh or English which is a complete and accurate translation.
- An election address must specify the candidate's name and must contain matter relating to the above election only.
- The election address must not contain any advertising material (other than material promoting the candidate as a candidate at the election).
- The election address must not contain any material referring to any other candidate for the election.
- The election address must not appear to the Police Area Returning Officer to contain any material with a view to commercial gain, or be indecent, obscene or offensive.
- The election address must not be a publication or distribution that would be likely to amount to the commission of an offence.
- Any photograph showing the candidate which is included in the election address must show no other person and must comply with paragraphs 5 to 8 above.
- The election address may include representation of a registered emblem, or (as the case may be) one of the registered emblems, of a registered political party, if the address is prepared on behalf of an authorised party candidate.
- Where an election address is prepared on behalf of an authorised party candidate, the address may contain a description under section 28A of The Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 or, if the description is registered for use by candidates of two or more parties, under section 28B of that Act.
- The election address must be capable of being produced in hard copy form, and comply with the requirements of the prescribed form.

Dyddiedig 25 Mawrth 2024

Dated 25 March 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan / Printed and published by:  
Eifion Evans, Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu / Police Area Returning Officer  
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA

